Gan ein gohebydd lleol . . .

# Pam Mae Pentrefi yn Bwysicach Heddiw Nag Erioed

Roedd yna adeg pan oedd pawb yn adnabod pawb. Roedden nhw hefyd yn adnabod ci pawb, pa liw oedd eu llenni a defaid pwy yn union oedd wedi dianc yr wythnos hon. Er bod rhywfaint o hynny efallai wedi bod ychydig yn ormod o wybodaeth, efallai ein bod ni wedi colli rhywbeth eithaf pwysig ar hyd y ffordd.

Mae bywyd modern wedi ei gwneud hi'n haws nag erioed inni gyfathrebu gyda phobl ar ochr arall y byd. Yn rhyfedd, mae hefyd wedi'i gwneud hi'n haws anwybyddu'r person sy'n byw drws nesaf.

Dyna ble mae pentrefi fel Dolwyddelan wir yn sefyll allan.

Mae pentref yn fwy na chasgliad o dai gyda therfyn cyflymder (gaiff ei anwybyddu gan amlaf). Mae'n rhwydwaith o bobl sydd rywsut yn llwyddo i gadw pethau i fynd. Mae rhywun yn trefnu'r digwyddiadau. Mae rhywun yn torri'r glaswellt. Mae rhywun yn gwneud y te. Mae rhywun yn datgloi'r neuadd. Mae rhywun yn gwirfoddoli, yn aml heb i neb sylwi, gan fod y gymuned o bwys iddynt.

Mae ein siop leol yn fwy na rhywle i brynu llefrith pan fyddwch chi wedi anghofio ei brynu o'r archfarchnad. Dyma ble caiff newyddion ei rannu, pen-blwyddi eu cofio a sgyrsiau cyfeillgar yn digwydd heb i neb orfod trefnu cyfarfod yn Outlook gyntaf.

Mae'r un peth yn wir am ein heglwysi a'n capel, y dafarn, clybiau a grwpiau cymunedol. Nid dim ond adeiladau neu sefydliadau ydyn nhw; maen nhw'n llefydd lle mae cyfeillgarwch yn dechrau, lle bydd pobl yn dod at ei gilydd pan fydd pethau'n anodd a lle daw pobl newydd yn gymdogion.

Y peth doniol am berthyn ydy na allwch chi ei brynu ar-lein, ei lawrlwytho fel ap neu ei gael wedi'i ddanfon y diwrnod wedyn. Mae'n tyfu'n araf, un sgwrs, un gwirfoddolwr, un paned, un chwerthiniad ac un help llaw ar y tro.

Wrth gwrs, tydy bywyd pentref ddim yn berffaith. Rydym ni i gyd yn gwybod os byddwch chi'n parcio yn y lle anghywir, yn trimio'ch gwrych yn rhy frwdfrydig, neu os bydd eich ailgylchu yn dianc i lawr y ffordd ar ddydd Mercher gwyntog, mae'n debyg y bydd y pentref i gyd yn gwybod cyn ichi gael cyfle i roi'r tegell ymlaen! Ond efallai mai dyna'r ochr arall o bobl yn talu sylw i'w gilydd.

Mae ymchwil yn dweud wrthym yn gyson bod adnabod ein cymdogion yn gwella lles, lleihau unigrwydd ac yn ein helpu i deimlo'n fwy diogel. Mewn geiria geiriau eraill, efallai nad tanysgrifio i wasanaeth ffrydio